# Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | **12 Rhagfyr 2013** |
| **Teitl yr Adroddiad** | **Cyn-Gofrestur Diddordebau – Diweddaraidau gan Gynghorwyr Sir** |
| **Adroddiad Gan** | **Swyddog Gofal Cwsmer** |
| **Pwrpas yr Adroddiad** | **I ddiweddaru'r Pwyllgor ar y Cofrestr Diddordebau'r Cynghorwyr Sir.** |

## 1.0 Rhagarweiniad

Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Safonau yn adolygu'r Gofrestr Diddordebau "sefydlog" ac am y tair blynedd ddiwethaf, mae'r Pwyllgor wedi nodi methiant gan rhai Aelodau Etholedig i ddiweddaru eu cofrestriad o ran penodiadau i gyrff allanol. Mae'r methiant hyn yn gyfystyr a thorri'n Cod Ymddygiad ac er nad yw, mae'n debyg, ond yn torri'n Cod mewn modd technegol un unig, mae'n golygu fod Aelodau nad ydynt yn cydymffurfio yn agored i gael eu beirniadu.

Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 12 Medi 2013 yn nodi bod 7 o'r Cynghorwyr heb ddiweddaru eu cofrestrau ond erbyn dyddiad y cyfarfod roedd y rhif i lawr i 3 ac argymhelliad y Pwyllgor oedd ysgrifennu atynt yn gofyn iddynt ddiweddaru eu cofrestrau o fewn 7 diwrnod o dderbyn y llythyr.

## 2.0 Y Sefyllfa Gyfredol

Ar 13 Medi 2013 cafodd y Swyddog Gofal Cwsmer wybod gan Dim Y We bod y 3 Aelod wedi diweddaru eu Cofrestrau ac felly roedd pob un o'r 30 Aelodau Etholedig wedi diweddaru eu Cofrestrau o ran penodiadau i gyrff allanol.

Mae Tîm y We bellach yn hysbysu'r Swyddog Gofal Cwsmer yn awtomatig trwy e-bost pob tro y bydd Cofrestr yn cael ei ddiweddaru ac felly mae'n bosib cadw ffeil swyddfa o Gofrestrau Aelodau yn gyfredol.

## 3.0 Casgliad

Gan fod cydymffurfiaeth lawn ar hyn o bryd, ni welaf reswm i gyflwyno adroddiadau pellach ar y mater.

This page is intentionally left blank